# CABINET

## COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD YN NHŶ PENALLTA, TREDOMEN AR DDYDD MERCHER, 30 HYDREF 2019 AM 10.30AM

YN BRESENNOL:

Y Cynghorydd B. Jones – Cadeirydd

Cynghorwyr:

C. Cuss (Gofal Cymdeithasol a Lles), N. George (Gwasanaethau Cymdogaeth), C.J. Gordon (Gwasanaethau Corfforaethol), P. Marsden (Addysg a Chyflawniad), S. Morgan (Economi, Isadeiledd a Chynaliadwyedd), L. Phipps (Cartrefi a Lleoedd) ac E. Stenner (Yr Amgylchedd a Diogelwch y Cyhoedd).

Ynghyd â:

R. Edmunds (Cyfarwyddwr Corfforaethol - Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol), D. Street (Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai).

Hefyd yn bresennol:

M. Williams (Pennaeth Gwasanaethau Eiddo Dros Dro), S. Couzens (Prif Swyddog Tai), R. Tranter (Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Swyddog Monitro) ac C. Evans (Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor).

### 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan C. Harrhy (Prif Weithredwr Dros Dro) ac M. S. Williams (Cyfarwyddwr Corfforaethol Dros Dro - Cymunedau),

### 2. DATGANIADAU O FUDDIANT

Ni chafwyd datganiadau o ddiddordeb ar ddechrau nac yn ystod y cyfarfod.

### 3. CABINET - 16 HYDREF 2019

PENDERFYNWYD cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Hydref 2019 fel cofnod cywir.

## MATERION A OEDD ANGEN PENDERFYNIADAU GWEITHREDOL

## 4. DATBLYGIAD GERDDI'R SIARTWYR, PONTLLAN-FRAITH

Rhoddodd yr adroddiad ddiweddariad i'r Cabinet am gynllun Gerddi'r Siartwyr a gynigiwyd i'w leoli ar safle hen Dŷ Pontllan-fraith a gofynnodd am gymeradwyaeth i symud y ffurfioldebau contract ymlaen os a phan fydd y datblygwr yn sicrhau caniatâd cynllunio.

Nodwyd bod y Cabinet wedi ystyried yn flaenorol (ym mis Hydref 2018) strategaeth ar gyfer gwaredu tir dethol sydd â photensial datblygu preswyl, ac ar y pryd, cytunwyd i ddatblygu cynnig gyda Landlord Cymdeithasol Cofrestredig ar gyfer safle hen Dŷ Pontllan-fraith.

Yn hynny o beth, amlinellodd yr adroddiad yn fanylach y cynnig sydd wedi'i ddatblygu ar gyfer y safle mewn partneriaeth â Pobl ac a fydd yn arwain at lefel sylweddol o ddarpariaeth cartrefi fforddiadwy, buddion canlyniadol i'r Gofrestr Tai Cyffredin a swm cyfalaf yn cael ei dderbyn gan y Cyngor ar gyfer gwerthu'r safle.

Diolchodd y Cabinet i'r Swyddogion am yr adroddiad a chafwyd trafodaeth.

Trafododd yr aelodau yr adroddiad yn fanwl a chawsant eu calonogi i weld cymhareb y tai fforddiadwy a ddyrannwyd yn y datblygiad blaenllaw. Wrth nodi bod 42 cartref wedi'u dyrannu fel llety rhent cymdeithasol, nodwyd y byddai eiddo ychwanegol ar gael ar gynllun rhanberchnogaeth.

Gofynnodd Aelod am wybodaeth bellach am y Gofrestr Tai Cyffredin a sut mae'n gweithio, ac a oes unrhyw gynlluniau eraill tebyg i gynllun Gerddi'r Siartwyr, Pontllan-fraith, wedi'u cynllunio ar gyfer y dyfodol. Esboniodd swyddogion fod y Gofrestr Tai Cyffredin yn cael ei rheoli gan Gyngor Caerffili ond ei bod wedi'i datblygu mewn partneriaeth â nifer o bartneriaid a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, gyda'r nod o ddarparu opsiynau preswyl ychwanegol yn ogystal ag eiddo'r Cyngor. Aseswyd pob un o'r 4,500 ymgeisydd ar sail eu hanghenion a'u hamgylchiadau. Mae Cynllun Gerddi'r Siartwyr wedi'i ddatblygu o ganlyniad i gydweithio eithriadol ac mae wedi'i ddylunio ochr yn ochr â'r datblygwr i ddarparu tai fforddiadwy. Yn ogystal, nodwyd bod trefniadau tebyg yn cael eu hystyried gyda Cymdeithas Tai Unedig Cymru ar gyfer datblygiad yn Nelson.

Cafwyd trafodaethau ynghylch y mathau o lety sydd ar gael ar y safle, ac yn benodol y byngalos a'r fflatiau. Esboniodd swyddogion fod yna gymysgedd o fyngalos a fflatiau a thai deulawr sy'n darparu mynediad gwastad a hawdd lle bo hynny'n bosibl. Y mae rhai ohonynt i'w dyrannu i'r cynllun tai fforddiadwy.

Wrth fynd i’r afael â phryderon rhai preswylwyr lleol ac aelodau o’u teuluoedd, cadarnhawyd y bydd Carreg Goffa Syr Harold Finch yn cael ei hadleoli i leoliad y cytunir arno gyda chynrychiolwyr y teuluoedd. Argymhellir symud y garreg ger y pwll i ffin ogleddol y safle datblygu. Bydd hyn yn ffurfio mynedfa ddeniadol i gerddwyr i'r warchodfa natur leol a'r Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig i'r gogledd (Parc Syr Harold Finch) na fydd y datblygiad yn effeithio arno. Yn ogystal, amlinellodd Swyddogion y bydd datblygiad fflatiau yn arddull Elusendy yn cael ei drefnu o amgylch y gofeb ryfel ac y bydd yn ffurfio canolbwynt y cynllun.

Cafwyd trafodaethau ynghylch Cynllunio a'r pwysau ar yr Awdurdod i ddarparu tai ychwanegol a gall y cynllun darparu hynny. Fodd bynnag, nodwyd y bu nifer o sylwadau gan drigolion lleol mewn perthynas â'r safle lle sicrhaodd yr Aelodau i'r preswylwyr y bydd y safle'n diwallu anghenion nifer o bobl sy'n aros am ddyraniadau ar y Gofrestr Tai Cyffredin, yn ogystal â'r rhai sydd angen tai fforddiadwy yn ogystal â chadw rhan sylweddol o'r amgylchedd naturiol o amgylch y safle.

Trafododd y Cabinet Loftus Gardens, datblygiad gwobrwyol o 250 cartref yng Nghasnewydd, y mae 60% ohonynt yn cael eu hystyried yn fforddiadwy. Gwnaed gwaith ar y safle gyda

chyfranogiad ac ymgysylltiad gan y gymuned leol sydd wedi creu naws gymunedol ac ymdeimlad o falchder a pherchnogaeth. Nod Gerddi'r Siartwyr yw creu'r un fath o awyrgylch gyda'r datblygiad ym Mhontllan-fraith.

Gofynnodd Aelod am wybodaeth bellach am adleoli'r ardal chwarae ar y safle presennol ac am gysylltiadau trafnidiaeth. Esboniodd swyddogion fod y safle wedi'i ddylunio'n benodol gan ystyried y cyswllt metro, yn amodol ar ganiatâd cynllunio. Mewn perthynas â hamdden, nodwyd y bydd man gwyrdd yng nghanol y safle a bydd yr ardal chwarae bresennol yn cael ei hadleoli yn agosach at y brifffordd a'r meysydd parcio presennol, er hwylustod i'r cyhoedd.

Wrth drafod Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, roedd y Cabinet yn falch o nodi y bydd pob cartref â dreif yn cynnwys ceblau wedi'u gosod ymlaen llaw ar gyfer gwefru cerbydau trydan a darperir dau bwynt gwefru cyhoeddus pe bai digon o gapasiti ar y grid.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhellion yn yr adroddiad yn cael eu cymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

PENDERFYNWYD, am y rhesymau a gynhwysir yn adroddiad y Swyddog:

i) cytuno ar y cynllun arfaethedig a amlinellir yn adran 5 yr adroddiad;

ii) awdurdodi'r Pennaeth Gwasanaethau Eiddo Dros Dro, mewn ymgynghoriad ag Aelod Cabinet dros Gartrefi a Lleoedd a'r Cyfarwyddwr Dros Dro - Cymunedau, i ddod â'r ffurfioldebau cytundebol a masnachol i ben gyda'r Landlord Cymdeithasol Cofrestredig (Pobl).

## 5. BLAENRAGLEN WAITH Y CABINET - I'W NODI

Darparwyd i'r Cabinet Flaenraglen Waith y Cabinet, a oedd yn manylu ar yr adroddiadau a drefnwyd rhwng 30 Hydref 2019 a 12 Chwefror 2020. Atgoffwyd yr aelodau bod Blaenraglen Waith y Cabinet yn ddogfen weithio ac felly mae'n gallu newid. Yn ogystal, nodwyd, wrth symud ymlaen, y bydd y Flaenraglen Waith yn cael ei darparu i'r Cabinet fel eitem sefydlog ar agenda pob cyfarfod y Cabinet.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd nodi'r Flaenraglen Waith. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

PENDERFYNWYD nodi'r Flaenraglen Waith.

Terfynwyd y cyfarfod am 10.51am.

Cymeradwywyd a Llofnodwyd ei fod yn gofnod cywir yn amodol ar unrhyw gywiriadau a wnaed yn y cyfarfod a gynhelir ar 13 Tachwedd 2019.

________________________

CADEIRYDD